CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed CHWEFROR 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng W R Parry (Is-Gadeirydd) Cyng Ms N Dafydd, G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng Miss B Owen, R R Roberts (Gwaeledd)

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng Ms N Dafydd, D T Roberts (Rhif 11. Llwybr Tan Rallt i Capel Seion. Cynnal a Chadw.)

CAEL COFNODION 16eg IONAWR 2024 YN RHAI CYWIR: Cyng R G Parry eilo Cyng Mrs L Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Siarter Gofal Cwsmer y Cyngor.
   Y Cyngor Sir wedi datblygu cyfres a safonau ar gyfer gofal cwsmer.
   Chwe amcan strategol:-
   Yr Iaith Gymraeg. Gofal Cymdeithiasol a Llesiant. Addysg. Tai. Economi. Newid.
   Gwerthoedd.
   Parch. Gonestrwydd. Cydweithio. Hyrwyddo`r Cyngor a`r Ynys.
   https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cwsmer-yn-gyntaf/Siarter-Gofal-Cwsmer.aspx
   Y Cyngor Cymdeithas yn derbyn ac yn cefnogi.

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Fforwm cyswllt - cyfraddau`r lwfans tai lleol.
   Bydd newid yn cynyddu`r lwfans ar gyfer bob categori rhwng £15 ac £20 ond nid yw`r ffigyrau newydd wedi ei cyhoeddi eto.
   Gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: Lwfans Tai Lleol I LLYW.CYMRU
   Y Cyngor ynn derbyn y wybodaeth. Unfrydol.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.

Datganiad: Dyfodol Gwasanaethau`r Cyngor dan fygythiad.
Mae angen llenwi bwlch ariannu o £14m yn golygu torri gwasanaethau`r Cyngor. Cynyddu`r Dreth Cyngor a defnyddio cronfeydd wrth gefn sydd yn brin.
Nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylw pellach.

6. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
Ceisiadau Cynllunio - Ffermydd Solar.
Er gwybodaeth yng nghyfarfod diwethaf Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Rhagfyr 2023.
Gofynwyd a fyddai yn bosib cael trafodaeth ar gais cynllunio fferm solar Maen Hir a Alaw Mon.
https://lightsourcebp.com/uk/project/maen-hir-solar-energy-storage-welsh/
https://www.alaw-mon-solar-farm.co.uk/cy
Cysylltu Tim Ynys Ynni: e-bost. pmo@ynysmon.llyw.cymru
Nid oedd sylw gan y Cyngor.

7. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
Cyngor Sir yn croesawu cyhoeddiad Cynllun Niwclear 2050 newydd Llywodraeth y DU.
Wylfa yn parhau i fod yn lleoliad dynodedig ar gyfer niwclear newydd ac yn cael ei groesawu.
Y Cyngor Cymdeithas yn derbyn ac yn gweld cam ymlaen.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Menter Mon. - Sioned McGuigan.
Balchder Bro. Canllawiau datgan diddordeb am gefnogaeth i`ch Cymuned.
Er bod y Cynghorwyr wedi cael y wybodaeth cyn y dyddiad cau, nid oedd yn debyg fod a lawer o ddiddordeb. Derbyn a cadw mewn sylw erbyn y dyfodol.

RHODDION.

9. Dawn i Bawb. Cynnig Cyng G Jones, eilo Cyng R G Parry i adael.

PLWYFOL.

10. Baw Cwn ym Modffordd. Bu cysylltiad gan Cyng Mrs L Roberts a`r Cyngor Sir.
Cafwyd atebiad gan Mr Barry J Owen, y bod hyn yn broblem ac yn diolch am dynnu sylw.
Maent y dibynnu ar y cyhoedd i`w hysbysu a gwybodaeth yn rhoi ran amseroedd, lleoliadau, troseddwyr a phobl yn rhoi datganiadau tyst er mwyn gallu gweithredu yn llwyddiannus. Yn sicrhau bod yr holl adroddiadau yn ei cymryd o ddifri. Byddant yn patrolio ardal Bodffordd.
Bydd y warden cwn yn rhoi sticeri yn yr ardal.
Cael arwyddion a bins ym Modffordd. Cynnig Cyng Ms N Dafydd, eilio Cyng Mrs L Roberts.

11. Llwybr Tan yr Allt i Capel Seion, Llandrygarn angen sylw, tyfiant wedi cymryd drosodd yn gwneud hi yn anodd ei gerdded.
Trwy gynnig Cyng G Jones eilo Cyng J E Lewis pasiwyd i dderbyn amcangyfrif Mr C Roberts ai weithlu wneud y gwaith am £275.00.
Gwneud y gorau i gwhlhau y gwaith yn y flwyddyn ariannol yn diweddu 31ain Mawrth 2024.
Cyng Ms N Dafydd a D T Roberts yn datgan diddordeb.

12. Mecanwaith cau`r giat bach yn y Fynwent Gymunedol, Bodffordd wedi torri. Dywedodd Cyng J Evans fod ganddo rhywun mewn golwg i rhoi bar newydd arni.

13. Torri glaswellt y Fynwent Gymunedol, Bodffordd.
    Mr N Williams am wneud y gwaith eto eleni am yr un pris a llynedd £1,000.00 yn daliadwy dwy waith y flwyddyn. Derbyn Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng J Evans.

14. Bollardiau plastig wedi ei gosod yn hytrach na choncrit dros y ffordd i Groeslon Llangwyllog yn gwaelod Bodffordd. Yn ymwneud Diolgelwch.

15. Cyflymder 20mya o Heneglwys i Pentref Bodffordd. Mae rhai o`r Tai ar y ffordd yn haupus i`w adael rhai eraill yn meddwl ei fod rhy araf. Penderfynwyd gadael pethau fel ac y maen`t dan fydd adolygiad, yn y dyfodol.

16. Y Clerc heb gael ateb i gyflwr Lon Foel, Bodwrog gan y Cyngor Sir. Ail gysylltu.

17. Sgwar Bodffordd angen y linellau gwyn o amglych cael ei ail wneud. Gobeithi`r cael ei gwneud yn y flwyddyn ariannol nesaf dechrau Ebrill 2024 / 25.

18. Ar ol i`r Cyngor Cymdeithas cymryd drosodd gofal y pedwar arwyddbost gwyrdd Bodffordd am fod Bodffordd Cyf wedi diddymu. Dyma`r cyfle i`r Cyngor ddiweddaru a cael rhai i Pentrefi Llynfaes, Glanrafon a Trefor (Chwech i gyd) ac un i ddangos allan Gwyndy.
    Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng J E Lewis. Unfrydol. I gael prisiau gyntaf.

19. Clwb Hedfan Mona.
    Yn ddiweddar daeth awyren fechan i lawr yn un o`r gerddi ym Modffordd. Wrth lwc nid oedd neb wedi brifo. Cyng J E Lewis yn gofyn i`r Cyngor anfon i`r Clwb Hedfan yn gofyn beth ydyw ei sylwadau am ofal a diogelwch.

20. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Y Cyngor yn hunod o ddiolchgar iddi. Gwaith da bob amser.

MATERION ARIANNOL.

21. Cyfrif Rhedegol £18,460.44. (Gan gynnwys Mynwent Gymunedol)

22. Mynwent Gymunedol. £8,390.00. (Grant claddu i law £1,000.00)

TALIADAU:

23. Clerc £450.00.

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng J E Lewis.

D Owen (Clerc)